Pwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad Covid-19 Cymru
—
Wales Covid-19 Inquiry Special Purpose Committee

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCovid@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCovid
0300 200 6565
—
Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCovid@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCovid
0300 200 6565

Y Gwir Anrhydeddus Farwnes Heather Hallett DBE
Cadeirydd yr Ymchwiliad
Ymchwiliad COVID-19 y DU

30 Ionawr 2025

Pwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad COVID-19 Cymru

Annwyl Y Gwir Anrhydeddus Farwnes Heather Hallett DBE

Fel y gwyddoch, sefydlwyd Pwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad COVID-19 Cymru ("y Pwyllgor") gan y Senedd i edrych ar adroddiadau ar bob cam o Ymchwiliad COVID-19 y DU a chynnig i'r Senedd – drwy gynnig – unrhyw fylchau a nodwyd ym mharatoad ac ymateb Llywodraeth Cymru, a chyrff cyhoeddus Cymreig eraill, yn ystod y pandemig COVID-19, a ddylai fod yn destun archwiliad pellach..

Ar hyn o bryd, rydym wrthi'n ystyried adroddiad Modiwl 1 ar wytnwch a pharodrwydd, Ymchwiliad COVID-19 y DU. Fel rhan o'n gwaith rydym wedi cynnal ymgynghoriad cyhoeddus, wedi cynnal digwyddiad ymgysylltu â rhanddeiliaid, ac wedi comisiynu academyddion o Brifysgol Nottingham Trent i baratoi dadansoddiad bwlch o waith Modiwl 1.

Ar hyn o bryd, rydym yn y broses o ddefnyddio'r dystiolaeth hon – ynghyd ag ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad Modiwl 1 – i nodi unrhyw fylchau posibl sydd, yn ein barn ni, angen eu hystyried ymhellach. O ystyried mai ein cylch gorchwyl penodol yw ystyried adroddiadau ar bob cam o Ymchwiliad COVID-19 y DU, byddai cael gwybod y canlynol yn helpu ein trafodaethau:

> A yw anghydraddoldebau iechyd ac effaith y pandemig ar iechyd meddwl yn cael sylw fel themâu trosfwaol ar draws yr holl fodiwlau, neu a ydynt yn cael sylw mewn modiwlau penodol?
> Pryd fydd canlyniadau eich ymarfer gwrando yn cael eu rhannu? A fyddant yn cael eu cyhoeddi ochr yn ochr â phob modiwl, neu dim ond ar gyfer rhai penodol?

Pe byddai'r ymchwiliad yn gallu rhannu amserlen ar gyfer cyhoeddi adroddiadau modiwl yn y dyfodol – os yw'n hysbys – byddai hynny o gymorth mawr i'r Pwyllgor o ran ein gwaith cynllunio a pharatoi.

Byddem yn ddiolchgar o glywed gennych erbyn diwedd mis Chwefror. Hoffai'r Pwyllgor ddiolch i'r Ymchwiliad am ei waith a'i ymgysylltiad parhaus â ni.

Yn gywir,

Joyce Watson Tom Giffard

Cyd-gadeiryddion, Pwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad COVID-19

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.